# Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau

## 14 Gorffennaf 2021

Yn bresennol: Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Mrs S Hoss, Mrs J James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd A Wilcox.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd M James ar ôl ethol y Dirprwy Gadeirydd.]

(Cyfarfod Rhithiol: 2.00pm – 2.50pm)

## 1. Ethol Cadeirydd

**Penderfynwyd yn unfrydol** ethol Mrs J James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Cymerodd Mrs J James y Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]*

## 2. Ethol Dirprwy Gadeirydd

**Penderfynwyd yn unfrydol** ethol y Cynghorydd M Williams yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

## 3. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd M Williams.

## 4. Datgan Buddiannau

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Chwefror 2021 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Nodwyd bod gwall teipograffyddol yn sillafu Park ym mhenderfyniad a) o'r cofnodion Saesneg.

**Penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed o Chwefror 2021 yn amodol ar y cywiriad uchod.

## 6. Materion yn codi o'r Cofnodion

<u>Prosiect Peilot 'Cyfeillio' (Cofnod 4)</u>

Atgoffodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd y Pwyllgor bod y cynllun peilot wedi'i lansio fis Gorffennaf 2019 gyda thri Aelod presennol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 'gyfeillio' gyda thri Aelod Llywodraeth Cymru oedd newydd eu penodi. Gofynnwyd am adborth ynghylch effeithiolrwydd y prosiect a'r modd y gellid ei wella; roedd dau Aelod wedi ymateb, gyda'r naill wedi cael y cynllun yn fwy

buddiol na'r llall. Agweddau positif o'r cynllun oedd ei fod wedi caniatáu i'r Aelodau deimlo'n rhan o'r Awdurdod mewn byr o dro, ac wedi bod o gymorth i gael persbectif arall ar ffordd yr Awdurdod o weithio. Hefyd roedd yr Aelodau wedi awgrymu y gallai'r cynllun fod yn fwy defnyddiol petai'r 'cyfaill' yn Aelod a benodwyd gan y Cyngor Sir. Daethpwyd i'r casgliad bod y cynllun wedi bod yn ymarfer defnyddiol, ond yr her oedd paru Aelodau addas, oedd yn anodd pan oedd yr Aelodau newydd eu penodi.

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y dylai'r cynllun cyfeillio barhau, ond y dylid annog cyfranogiad, yn hytrach na bod cyfranogi yn orfodol. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried ymhellach yr amseru, efallai er mwyn caniatáu i'r Aelodau ddod i adnabod ei gilydd yn gyntaf. Gan ddiolch i'r Aelodau am eu sylwadau, dywedodd y Swyddog y byddai adroddiad yn cael ei ddwyn gerbron yr Awdurdod cyn yr etholiadau Llywodraeth Leol fis Mai 2022 pan oedd yn debygol y byddai Aelodau newydd yn cael eu penodi i'r Awdurdod.

**Nodwyd.**

## 7. Diweddariad ar Ddatblygu Aelodau

Dywedwyd bod y cais am statws Siarter Uwch o Siarter Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi'i gyflwyno. Gan fod y cyflwyniad yn hirfaith, dim ond rhestr wirio meini prawf y Siarter oedd wedi'i hatodi i'r adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, ac roedd fformat y cyflwyniad wedi'i newid i'w gwneud hi'n haws ei ddarllen.  Byddai manylion y broses asesu yn cael eu dosbarthu unwaith y byddent wedi dod i law.

Cafwyd adroddiad hefyd ar y camau ymlaen o ran cyflawni'r Cynllun Hyfforddi a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod fis Medi 2020. Nodwyd bod proses adolygu datblygiad personol 2021 bellach wedi cychwyn, a hyd yn hyn roedd 10 Aelod wedi cwblhau eu cynlluniau cymorth. Y gobaith oedd y byddai mwy o Aelodau yn cymryd rhan, yn enwedig Aelodau'r Pwyllgor, fel y gellid llunio Cynllun Hyfforddi mwy cynhwysol yn yr hydref.  Byddai nodyn atgoffa yn cael ei anfon at yr Aelodau perthnasol.

Yn olaf, dywedwyd bod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd yn y flwyddyn hyd yn hyn yn 88% (targed 75%), tra bod presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi yn 65% (targed 65%). Roedd tystiolaeth anecdotaidd wedi awgrymu, er bod yn well gan yr Aelodau gael cyfarfodydd/gweithdai wyneb yn wyneb, bod gweithio o bell wedi eu galluogi i fynychu yn amlach nag a fyddai'n wir fel arall. Roedd ôl troed carbon yr Awdurdod hefyd wedi'i leihau gan nad oedd raid i'r Aelodau deithio i gyfarfodydd.  Ymddiheurodd y swyddog nad oedd

y ffigurau presenoldeb a nodwyd yng nghyflwyniad y Siarter wedi'u diweddaru i amlygu'r sefyllfa bresennol.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith yn paratoi'r cyflwyniad am Siarter Uwch, a chymeradwywyd y lefel a ffocws y gwaith o gefnogi a datblygu'r Aelodau, ac agwedd gadarnhaol y Prif Weithredwr ac uwch swyddogion eraill tuag at y gwaith. O dan A1 o feini prawf y Siarter, nodwyd bod cyfeiriad at ddisgrifiad swydd yr Aelodau hynny sy'n gwasanaethu ar gyrff allanol, a gofynnwyd am gadarnhad bod hyn yn ymwneud â phenodiadau a wnaed gan yr Awdurdod yn hytrach na'r Aelodau hynny sy'n gwasanaethu fel unigolion. Cadarnhawyd mai hyn oedd y sefyllfa.

O ran y cynllun hyfforddi, gofynnodd un Aelod a ellid cadw rhestr ddiweddaraf o geisiadau am weithdy hyfforddi mewn man sy'n hygyrch iddynt. Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd y byddai hyn yn bosibl unwaith y cyflwynir Microsoft 365 yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gofynnodd Aelod arall pa mor berthnasol yw'r cynllun hyfforddi os bydd nifer sylweddol o Aelodau newydd ar yr Awdurdod yn dilyn yr etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022. Atebodd y swyddog bod y broses o adolygu datblygiad personol a'r cynllun hyfforddi yn broses flynyddol er yn cydnabod bod rhaid cario rhai elfennau ymlaen o bryd i'w gilydd i'r cynllun nesaf. Yn ogystal, byddai rhai materion yn derbyn sylw yn y rhaglen sefydlu (y gwahoddir pob Aelod i fynychu) ac mewn gweithdai eraill, megis y Cod Ymddygiad, bob blwyddyn. Hefyd pwysleisiwyd pa mor werthfawr yw bod yr Aelodau yn cael profiadau dysgu unigol y tu allan i'r cynllun hyfforddi, megis treulio diwrnod yng nghwmni Parcmon neu hyd yn oed fynychu digwyddiadau cyhoeddus a drefnir gan yr Awdurdod.

**Penderfynwyd**:
a) nodi cyflwyniad yr Awdurdod am statws Siarter Uwch;
b) nodi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn ar y Cynllun Hyfforddi, ac
c) awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd, drwy ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor, i adolygu'r Cynllun Hyfforddi cyfredol cyn i Gynllun Hyfforddi newydd gael ei ddrafftio yn yr hydref.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 6 Hydref 2021 heb eu diwygio. |